| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Rhieni fel Partneriaid - Meithrinfa Toybox |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 1 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Myfyrwyr, staff meithrinfa, rhieni a phlant |

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Asesiad effaith /* Impact assessment |
| *Effaith ar y Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

### Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | **Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager** | | |
| **Ymgynghoriad/**<br>**Consultation:** | Rhestrwch nhw / Please list<br>Staff y Feithrinfa | | |
| **Dyddiad Cymeradwyo /**<br>**Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *22/01/2025* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | Os yn berthnasol / If applicable |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | Os yn berthnasol / If applicable |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | Os yn berthnasol / If applicable |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | Os yn berthnasol / If applicable |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | 31/01/2028 | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

**Rhieni fel Partneriaid**

Rydym yn credu bod angen i rieni a staff gydweithio mewn partneriaeth agos er mwyn i blant gael gofal o ansawdd a dysgu cynnar sy'n gweddu eu hanghenion unigol. Mae rhannu gwybodaeth ddwy-ffordd yn allweddol i hyn. Mae tîm y feithrinfa yn croesawu rhieni fel partneriaid ac mae angen adeiladu'r berthynas hon ar ymddiriedaeth a dealltwriaeth. Mae'n bwysig ein bod ni, fel ymarferwyr, yn gallu cefnogi rhieni mewn modd agored a sensitif.

Mae'r feithrinfa'n dymuno sicrhau bod rhieni yn rhan annatod o'r tîm gofal a dysgu cynnar yn y feithrinfa.

Ein polisi yw:

- Cydnabod a chefnogi rhieni fel addysgwyr cyntaf a phwysicaf eu plentyn ac i'w croesawu i fywyd y feithrinfa
- Meithrin hyder ac annog rhieni i ymddiried eu greddf a'u barn eu hunain o ran eu plentyn eu hunain
- Croesawu'r holl rieni i'r feithrinfa ar unrhyw adeg
- Croesawu mamau sy'n bwydo o'r fron. Bydd y feithrinfa yn gwneud man preifat ar gael pryd bynnag mae ei angen i gynnig lle a phreifatrwydd i famau sy'n bwydo o'r fron
- Sicrhau bod dogfennau a chyfathrebiadau'r feithrinfa yn cael eu darparu mewn fformatiau gwahanol i weddu anghenion unigol rhieni, e.e. Braille, aml-ieithoedd, cyfathrebiadau electronig
- Sicrhau bod pob rhiant yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r feithrinfa. Darparu prosbectws rhiant manwl a bydd ein dogfennau polisi llawn ar gael i rieni bob amser yn y swyddfa feithrin ac ar fewnrwyd y staff.
- Cynnal cyswllt rheolaidd gyda rhieni i'n cynorthwyo i feithrin perthynas diogel a buddiol ar gyfer eu plentyn
- Cynorthwyo rhieni yn eu haddysg barhaus a'u datblygiad personol eu hunain a rhoi gwybod iddynt am gynadleddau, gweithdai a hyfforddiant perthnasol
- Creu cyfleoedd i rieni siarad ag oedolion eraill mewn amgylchedd diogel a chefnogol trwy weithgareddau fel diwrnodau agored, nosweithiau rhieni ac ati.
- Rhoi gwybod i rieni am yr ystod a'r mathau o weithgareddau a phrofiadau a ddarperir i blant, arferion dyddiol y lleoliad, y mathau o fwydydd a diodydd a ddarperir i'r plant a digwyddiadau trwy gylchlythyrau rheolaidd.
- Gweithredu system gweithiwr allweddol i sicrhau perthynas gweithio agos gyda'r holl rieni. Mae rhieni yn cael enw gweithiwr allweddol eu plentyn a'u rôl pan mae'r plentyn yn dechrau. Cynorthwyo rhannu gwybodaeth ddwy ffordd o ran anghenion unigol pob plentyn yn y feithrinfa a gartref
- Rhoi gwybod yn rheolaidd i rieni am gynnydd eu plentyn a'u cynnwys wrth gadw cofnodion ar y cyd. Cynhelir nosweithiau rhieni o leiaf dwywaith y flwyddyn. Ymgynghorir â rhieni ynghylch amseroedd cyfarfodydd i osgoi eithrio unrhyw un
- Annog rhieni i gyfrannu at ddysgu plant trwy rannu arsylwadau, diddordebau a phrofiadau o gartref. Gallai hyn fod ar lafar, trwy rannu lluniau neu'n ysgrifenedig
- Rhannu gwybodaeth am ddiwrnod y plentyn, e.e. y bwyd sydd wedi cael ei fwyta, gweithgareddau, amseroedd cysgu ac ati. Cytunir ar y dull gorau o gyfathrebu ymlaen llaw, e.e. e-bost, wyneb yn wyneb, dros y ffôn, yn ysgrifenedig
- Ystyried a thrafod pob awgrym gan rieni o ran gofal a dysgu cynnar eu plentyn a gweithrediad y feithrinfa
- Darparu cyfleoedd a chefnogaeth i'r holl rieni i gyfrannu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u diddordebau eu hunain i weithgareddau yn y feithrinfa
- Rhoi gwybod i'r holl rieni am y systemau ar gyfer cofrestru ymholiadau, canmoliaeth, cwynion neu awgrymiadau, ac i wirio bod rhieni'n deall y systemau hyn. Gall pob rhiant gyrchu ein gweithdrefn gwynion ysgrifenedig
- Rhannu gwybodaeth am y Cyfnod Sylfaen ac am ddysgu plant ifanc yn y feithrinfa a sut gall plant gefnogi dysgu ymhellach gartref a lle gallant gael rhagor o wybodaeth
- Darparu contract ysgrifenedig rhwng y rhiant/rhieni a'r feithrinfa ynghylch amodau derbyn a threfniadau talu
- Parchu cefndiroedd a chredoau crefyddol a diwylliannol y teulu ac i ddarparu ar gyfer unrhyw ofynion arbennig lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn ymarferol i wneud hynny
- Rhoi gwybod i rieni sut mae'r feithrinfa yn cynorthwyo plant ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol
- Canfod anghenion a disgwyliadau rhieni. Bydd y rhain yn cael eu casglu trwy adborth rheolaidd trwy holiaduron, system awgrymiadau ac annog rhieni i adolygu arferion gwaith. Bydd y rhain yn cael eu gwerthuso gan y feithrinfa i hyrwyddo arferion y feithrinfa, polisïau a datblygu staff.